# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 4

DIWALLU ANGHENION

*Taliadau uniongyrchol*

### 52 Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofalwr

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth o dan adran 40, 42 neu 45.

(2) Ond ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i daliadau o'r fath gael eu gwneud neu ganiatáu iddynt gael eu gwneud oni chaiff amodau 1 i 4 eu cyflawni.

(3) Amod 1 yw bod y taliadau i'w gwneud i'r gofalwr y mae arno anghenion am gymorth ("C").

(4) Amod 2 yw—

(a) pan fo C yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod gan C, neu fod yr awdurdod lleol yn credu bod gan C, alluedd i gydsynio bod y taliadau yn cael eu gwneud;

(b) pan fo C yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan C ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael taliadau uniongyrchol.

(5) Amod 3 yw bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—

(a) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion C, a

(b) bod gan C allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael i C).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 52 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(6) Amod 4 yw bod C wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud.

(7) Cyfeirir at daliad o dan yr adran hon yn y Ddeddf hon fel "taliad uniongyrchol".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 52 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 52 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 52 power to modify conferred by 2014 c. 23 Sch. 1 para. 9(2)(a)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):
– s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
– s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))